

Ynghylch Calcifert...

Cynnyrch calch gronynnog yw Calcifert y profwyd ei fod yn niwtraleiddio asidedd mewn pridd. Mae'n addas ar gyfer pob math o gnwd gan gynnwys glaswelltir, grawnfwydydd, ffrwythau, rêp had olew a hyd yn oed hopys.



Wedi ei wneud o flawd calchfaen mân, sydd wedi ei gyfuno â chyfrwng rhwymo organig sy'n toddi mewn dŵr, mae Calcifert yn dod mewn gronynnau caled rhwng 2 a 5 mm ar draws, wedi eu cynhyrchu yn y DU o garreg galch a gloddiwyd yn Ardal y Copaon.

Cysylltwch â ni...

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â Calcifert ac i gael gwybod am ddatblygiad cynhyrchion eraill cysylltiedig â Calcifert, ymwelwch â'n gwefan neu cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Gwaith cynhyrchu:

Percival Lane
Runcorn
Cheshire
WA7 4UY

Swyddfa archebu:

The White House
Gurney Slade
Somerset
BA3 4UU

Ffôn: 0800 6226023

E-bost: info@calcifert.co.uk
www.calcifert.co.uk

Eich cyflenwr lleol yw:



- ✓ Defnyddio offer taenu arferol i'w wasgaru
- ✓ Cost effeithiol
- ✓ Llai angen ei daenu



Cael y cydbwysedd yn iawn...

Mae monitro pH eich pridd a chydbwysio asidedd y pridd yn allweddol i wella perfformiad eich cynydau, gan y bydd pH isel y pridd yn lleihau tyfiant y cnwd a swm y cynnyrch yn y pen draw.

Mae taenu calch gronnog Calcifert yn ffordd sydyn a hawdd o gydbwysio pH pridd yn effeithiol ac mae'n gwella ansawdd a swm y cynnyrch.

Pam dewis Calcifert?

Mae gan Calcifert lawer o fanteision dros galch arferol. Y fantais fwyaf i ffermwyr yw nad oes rhaid i Calcifert gael ei daenu gan contractwyr arbenigol – gellwch chi ei daenu, gan ddefnyddio'r offer arferol ar gyfer taenu gwrtaithe ar y fferm.

Mae manteision Calcifert yn cynnwys:

- Mae gronnau calchfaen o faint a siâp rheolaidd yn sicrhau bod y calch yn cael ei daenu'n wastad ac yn cael ei lyncu'n gyflym
- Mae'n hawdd ei daenu â lledaenydd fferm arferol, gan leihau'r angen am contractwr arbenigol drud

- Mae modd ei daenu ar unrhyw adeg o'r flwyddyn a hynny ochr yn ochr â gwrtaithe arall
- Gellir taenu Calcifert ar dir noeth neu ar gnydau sydd wrthi'n tyfu, yn wahanol i galch traddodiadol
- Mae'r gyfradd daenu, sy'n is na chalc arferol, yn golygu bod Calcifert yn ddewis mwy cost effeithiol
- Mae wedi ei gymeradwyo ar gyfer ffermio organig
- Mae'n bosibl ei ddefnyddio i drin darn o dir – gan ei wneud yn rhad ar gyfer trin rhannau llai
- Gellir ei daenu dros hyd at 36 metr o led ar y tro
- Diogel i'w ddefnyddio – dim gwenwyn a dim perygl!

Cyfraddau taenu...

Bydd y cyfraddau taenu'n dibynnu ar natur y pridd, y lefelau o asid a'r math o gnwd.

Dangosodd arbrofion diweddar ar bridd tywodlyd bod taenu 248kg o Calcifert yr hectar ar ddyfnder o 2-3 cm wedi cynyddu'r pH o 0.9 ar gyfartaledd o fewn pedair wythnos.

Ar ôl pedwar mis, ar ddyfnderoedd rhwng 2 a 15 cm, cafwyd cynnydd pH cyfartalog o 0.6.

